| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Pwyllgor Cynllunio** |
| Dyddiad y Cyfarfod: | **15 Mawrth 2017** |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | **Y Cynghorydd David Smith / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai** |
| Awdur yr Adroddiad: | **Luci Duncalf, Swyddog Polisi Cynllunio** |
| Teitl: | **Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol: Mannau Agored Cyhoeddus Hamdden – dogfen ar gyfer mabwysiadu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion o'r ymgynghoriad diweddar ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Cyhoeddus Hamdden, cynigion diwygio'r Canllawiau Cynllunio Atodol ac yn argymell galluogi i'r canllawiau gael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r adroddiad yn cyd-fynd â'r nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol ar fannau agored cyhoeddus hamdden.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, mae angen Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi polisïau perthnasol y cynllun. Bydd hyn yn rhoi arweiniad pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae fersiwn y Canllawiau Cynllunio Atodol y bwriedir ei fabwysiadu wedi'i gynnwys fel Atodiad II i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol 'Mannau Agored Hamdden' sydd ynghlwm yn Atodiad II i'w defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Nid oes unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Fannau Agored Cyhoeddus Hamdden sydd wedi'u mabwysiadu ar hyn o bryd. Felly, mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn rhoi arweiniad ar ddarparu a chynllunio mannau agored mewn datblygiadau newydd yn y Sir.

4.2 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i ddarpar ymgeiswyr yn gryno ac mewn un ddogfen. Darperir canllawiau er mwyn: (1) dangos y meini prawf a'r ystyriaethau y mae'r Cyngor yn eu hystyried wrth asesu cynigion ar gyfer mannau agored mewn datblygiadau newydd; (2) rhoi cyngor ar gynllunio a dylunio mewn modd a fydd yn

gwella gwedd a gwerth darpariaeth mannau agored yn y dyfodol; (3) rhoi gwybodaeth ar reoli mannau agored ar, ac oddi ar, y safle.

4.3 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig yn nodi disgwyliadau'r Cyngor o ran trothwyon darparu mannau agored mewn datblygiadau newydd. Y nod yw egluro bod rhaid i fannau agored ar y safle adlewyrchu safonau sylfaenol y Gymdeithas Meysydd Chwarae neu, pan na ellir darparu cyfleusterau ar y safle, bod rhaid cyfrannu at wella cyfleusterau presennol trwy swm cyfnewidiol. Mae enghreifftiau o fathau mannau agored a chanllawiau cynllunio wedi'u darparu.

4.4 Cymeradwywyd y Canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori ar 16 Tachwedd 2016. Ers hynny, mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi bod arnynt am 9 wythnos, o 5 Rhagfyr 2016 tan 3 Chwefror 2017. Mae Adroddiad Ymgynghori, gan gynnwys crynodebau o bob ymateb a dderbyniwyd, wedi'i atodi i'r adroddiad hwn fel Atodiad I.

4.5 Derbyniodd y Cyngor 7 o sylwadau gan grwpiau cysylltiedig a chan y cyhoedd; gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, AHNE, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Anwyl Construction Company Limited, yr Awdurdod Glo, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd ac fe gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Iechyd cynhwysfawr gydag aelodau adrannau Cyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi'i hwyluso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gweler Atodiad IV. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u gwneud i'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- *Moderneiddio'r Cyngor* i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol.
- *Strydoedd glân a thaclus* drwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau mannau agored a gwelliannau i'r parth cyhoeddus, ynghyd â threfniadau cynnal a chadw yn y dyfodol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Disgwylir na fydd cymeradwyo'r ddogfen Canllawiau Cynllunion Atodol i gael ei mabwysiadu, gan alluogi i'r canllawiau gael eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio gyda chyrff statudol a'r cyhoedd, yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y tîm Rheoli Datblygu yn elwa o fabwysiadu'r ddogfen wrth gyflenwi'r holl wybodaeth angenrheidiol am fannau agored mewn datblygiad preswyl i'n cwsmeriaid cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, felly bydd yn gwella'r broses benderfynu.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Daeth ymarfer sgrinio'r Asesiad o Effaith ar Les i'r casgliad bod Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Cyhoeddus Hamdden yn annog Sir Ddinbych mwy llewyrchus, gwydn, iach a chyfartal, a Sir sydd â chymunedau cydlynol. Mae'n helpu i

annog pobl i fwynhau mwy ar eu hamgylchedd naturiol os yw ar garreg eu drws. Gall cyfraniadau gan ddatblygwyr helpu i gynnal safleoedd cadwraeth mwy a chodi ymwybyddiaeth am yr amgylchedd a bioamrywiaeth yn y lleoliad. Bydd cyfraniadau gan ddatblygwyr hefyd yn mynd tuag at gyfleusterau mannau agored mwy oddi ar y safle ac yn helpu i'w gwella, ac yn annog eu defnyddio'n amlach. Mae man agored sydd mewn lle da ac sy'n hygyrch wrth gerdded yn hyrwyddo cerdded a ffyrdd iach o fyw drwy annog gweithgarwch corfforol a'r manteision emosiynol a chorfforol cysylltiedig i iechyd a ddaw yn sgil hynny. Mae mannau agored cyhoeddus sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cynyddu gwerth economaidd drwy brydferthwch ardal drwy annog datblygwyr i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol bob amser. Mae adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel Atodiad III.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus 9 wythnos o hyd, cysylltwyd yn uniongyrchol ag ystod eang o fudd-ddeiliaid a defnyddiwyd cyhoeddusrwydd i roi gwybod i'r cyhoedd. Mae gwybodaeth bellach wedi'i darparu yn Atodiad I. Roedd Swyddogion Cynllunio Strategol a Thai a Rheoli Datblygu yn rhan gynhwysol o ddrafftio'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol. Cynhaliwyd sesiwn Gweithdy'r Asesiad o Effaith ar Iechyd gydag aelodau Cyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd, wedi'i hwyluso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 17 Ionawr 2017, gweler Atodiad IV.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 'Ni ragwelir y bydd cymeradwyo'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol yn golygu unrhyw gostau ychwanegol ond, os bydd costau, yna bydd angen eu cynnwys o fewn cyllidebau refeniw gwasanaethau presennol.'

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Heb ganllawiau cyfredol, mae perygl na fydd y Cyngor yn gallu darparu cyngor cynllunio cywir i'w gwsmeriaid ynglŷn â chynigion sy'n ymwneud â mannau agored mewn datblygiadau newydd.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)